sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Diogelu Data - Ffurflen Gais Gwrthrych

## Dyddiad cyhoeddi: Mai 2018

**Beth yw diben y ffurflen hon?**

Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi ('Gwrthrych y Data') wahanol hawliau mewn perthynas ag unrhyw ddata personol y mae Ofcom yn ei brosesu amdanoch chi. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon os ydych chi'n dymuno gwneud y pethau a ganlyn:

- Ceisio cadarnhad gan Ofcom ynghylch a ydyn ni'n prosesu eich data personol ai peidio ac, os felly, beth yw'r data hwnnw, lle cafodd Ofcom y data, pam ein bod ni'n prosesu'r data, gyda phwy ydyn ni'n ei rannu (os o gwbl), pa mor hir ydyn ni'n bwriadu cadw'r data, ac a ydyn ni'n gwneud penderfyniadau awtomatig ai peidio ar sail y data hwnnw;
- Gofyn am gopïau o unrhyw ddata personol sydd gan Ofcom amdanoch chi;
- Gofyn i Ofcom naill ai gywiro neu gwblhau unrhyw ddata personol sy'n anghywir neu'n anghyflawn yn eich barn chi;
- Gofyn i Ofcom dileu unrhyw ddata personol sydd gennym amdanoch chi;
- Gwrthwynebu i Ofcom brosesu eich data lle'r ydym yn gwneud hynny er mwyn cyflawni ein swyddogaethau;
- Gofyn i Ofcom gyfyngu ar brosesu eich data personol mewn amgylchiadau lle'r ydych chi'n credu bod y data'n anghywir, bod y prosesu'n anghyfreithlon, nad oes angen y data personol ar Ofcom mwyach ond y mae ei angen arnoch chi er mwyn mynd ar drywydd hawliad cyfreithiol, neu os ydych chi wedi gwrthwynebu prosesu'r data a'ch bod chi'n dymuno i Ofcom gyfyngu ar ei brosesu tra bydd yn ystyried y gwrthwynebiad hwnnw;
- Gofyn i'ch data personol gael ei drosglwyddo ar ffurf electronig i rywun arall.

Nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon er mwyn arfer eich hawliau uchod, gan y gallwch ysgrifennu atom ar wahân. Fodd bynnag, bydd llenwi'r ffurflen hon yn ein helpu i gadarnhau pwy ydych chi (sef un o'r gwiriadau y mae angen i ni eu gwneud er mwyn sicrhau nad ydym yn datgelu eich data personol i'r unigolyn anghywir) ac i'n cynorthwyo ni i ddod o hyd i'ch data personol yn ein ffeiliau.

Gellir defnyddio'r ffurflen hon hefyd i gadarnhau hunaniaeth ac awdurdod rhywun a all fod yn gwneud cais ar eich rhan.

Byddwn yn ymateb i chi cyn gynted ag y bo modd ac, mewn unrhyw achos, o fewn 30 diwrnod i dderbyn eich cais. Os oes angen unrhyw help arnoch chi i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â thîm Ceisiadau Gwybodaeth Ofcom (gweler diwedd y ffurflen am fanylion).

Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

## Adran 1: Pwy yw'r unigolyn y mae'r data personol yn berthnasol iddo (h.y. Gwrthrych y Data")?

Enw llawn:

Cyfeiriad:

E-bost:

Gwybodaeth berthnasol arall o ran adnabod (e.e. arwydd galw radio amatur):

A fu Gwrthrych y Data yn gyflogedig gan Ofcom ar unrhyw adeg?

□ Do (Os do, nodwch gyfnod yr amser yma:_________________ ______________)
□ Naddo
□ Ddim yn gwybod

## Adran 2 – Manylion yr unigolyn sy'n gwneud y cais am wybodaeth

Ai chi yw'r unigolyn sy'n gwneud y cais am wybodaeth?
□ Ie
□ Na

**Os ateboch drwy ddweud "Ie", ewch i Adran 3.** Fel arall, rhowch yr wybodaeth a ganlyn.
Enw llawn:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

E-bost:

Os NAD chi yw Gwrthrych y Data, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol* i gadarnhau awdurdod Gwrthrych y Data sy'n cefnogi'r cais hwn, e.e. awdurdod ysgrifenedig Gwrthrych y Data, atwrneiaeth barhaol neu benodi Derbynnydd gan y Llys Gwarchod.
*Mae'n rhaid i ni weld **copïau ardystiedig** - un lle mae rhywun sy'n gallu llofnodi (e.e. Ynad Heddwch, cyfreithiwr, meddyg meddygol) wedi ardystio ei fod yn gopi dilys o'r ddogfen wreiddiol.

## Adran 3: Y dogfennau y mae angen i chi eu hanfon neu eu cynhyrchu ar gyfer Ofcom er mwyn cadarnhau hunaniaeth a chyfeiriad Gwrthrych y Data

Mae'n rhaid i chi gadarnhau pwy yw Gwrthrych y Data drwy anfon copi o un o'r dogfennau a restrir isod atom. Ticiwch y blwch priodol i nodi pa ddogfen rydych chi wedi ei hamgáu.

□ Trwydded yrru ddilys lawn a ddyroddwyd gan un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd / Ardal Economaidd Ewrop
□ Tystysgrif geni neu dystysgrif cofrestru geni neu dystysgrif mabwysiadu
□ Pasbort cyfredol dilys llawn
□ Cerdyn adnabod a ddyroddwyd gan un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd / Ardal Economaidd Ewrop
□ Dogfennau teithio a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref
□ Tystysgrif Naturoli neu Gofrestru
□ Llythyr Cydnabyddiaeth Safonol y Swyddfa Gartref

Os yw enw Gwrthrych y Data bellach yn wahanol i'r hyn a ddangosir ar y ddogfen a gyflwynwch i gadarnhau ei hunaniaeth, a wnewch chi hefyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau newid enw Gwrthrych y Data e.e. tystysgrif briodas, papurau archddyfarniad absoliwt neu archddyfarniad amodol, gweithredoedd newid enw neu ddatganiad statudol.

Mae'n rhaid i chi hefyd gadarnhau cyfeiriad Gwrthrych y Data drwy anfon copi o un o'r dogfennau a restrir isod atom. Ticiwch y blwch priodol i nodi pa ddogfen rydych chi wedi ei hamgáu.

□ Bil nwy, trydan, dŵr neu ffôn yn enw Gwrthrych y Data am y chwarter diwethaf
□ Gorchymyn treth gyngor yn enw Gwrthrych y Data ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol
□ Datganiad banc, cymdeithas adeiladu neu gerdyn credyd yn enw Gwrthrych y Data am y chwarter diwethaf

**Ewch i adran 4**

## Adran 4: Eich cais

Beth hoffech chi i Ofcom ei wneud mewn perthynas â data personol Gwrthrych y Data? Nodwch eich cais isod:

## Adran 5: Pam y gallai Ofcom fod yn cadw data personol am Wrthrych y Data?

Er mwyn ein helpu ni i ddod o hyd i'r data personol perthnasol ac ymateb i'ch cais, dywedwch wrthym a ydych chi'n gwybod sut gallai Ofcom fod wedi casglu neu ddefnyddio eich data personol, neu sut mae'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Gall hyn gynnwys un o'r dibenion a ganlyn, neu reswm arall (yn yr achos hwnnw, byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi isod):

□ Trin cwynion (er enghraifft, rydych chi wedi gwneud cwyn o dan y Cod Darlledu)
□ Atal troseddau ac erlyn troseddwyr
□ Sicrhau/datblygu cystadleuaeth deg ac effeithiol ym myd cyfathrebu'r Deyrnas Unedig
□ Gweinyddu gwybodaeth a chronfeydd data
□ Trwyddedu a chofrestru (er enghraifft, lle'r ydych chi wedi gwneud cais, neu wedi cael, trwydded o dan Ddeddf Telegraffeg Ddi-wifr 2006 neu Ddeddfau Darlledu 1990 neu 1996).
□ Ymchwil
□ Gweinyddu staff
□ Cofnodion adnoddau dynol a chyflogaeth
□ Cyfrifon a chofnodion (er enghraifft, prynu, gwerthu neu drafodion eraill)
□ Hysbysebu, marchnata a hyrwyddo cysylltiadau cyhoeddus

A oes unrhyw reswm arall pam y gall Ofcom ddal data personol Gwrthrych y Data nad yw wedi ei restru uchod? Os felly, nodwch isod:

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth arall a allai gynorthwyo Ofcom i chwilio am ddata personol Gwrthrych y Data? E.e. rhif achos neu gyfeirnod cwyn, enw'r unigolyn/pobl yn Ofcom y buoch yn delio â nhw yn y gorffennol, ac ati.

**Llenwch y datganiad ffurfiol isod**

Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

## Datganiad ffurfiol

Drwy arfer yr hawl a roddwyd i mi o dan delerau Deddf Diogelu Data 2018, rwy'n cadarnhau mai dyma'r holl ddata personol yr wyf yn ceisio mynediad ato. Rwyf hefyd yn cadarnhau mai fi yw Gwrthrych y Data, neu fy mod i'n gweithredu ar ei ran/ei rhan. Rwy'n ymwybodol ei bod yn drosedd cael data personol o'r fath yn anghyfreithlon, e.e. drwy gymryd arnaf mai fi yw Gwrthrych y Data.

Rwy'n ardystio bod yr wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon yn wir. Deallaf fod yr wybodaeth yn angenrheidiol i Ofcom gadarnhau pwy ydw i/pwy yw Gwrthrych y Data, ac mae'n bosibl y bydd angen cael gwybodaeth fanylach er mwyn cadarnhau fy hunaniaeth a/neu ddod o hyd i'r wybodaeth gywir.

Llofnod:

Enw mewn llythrennau bras:

Dyddiad:

Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi:

□ Llenwi'r ffurflen hon yn llwyr
□ Llofnodi'r datganiad uchod
□ Amgáu'r ffurf berthnasol o ddull adnabod ac awdurdod (gweler adran 2)
□ Amgáu'r ffurf berthnasol o ddull adnabod a chyfeiriad (gweler adran 3)

Anfonwch y ffurflen wedi ei llenwi a'r dogfennau atodol i:

Ceisiadau am Wybodaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London
SE1 9HA
E-bost: information.requests@ofcom.org.uk